

## Addoliad i bob oed: Cymeriadau'r Adfent

Bwriad: I sôn am gyfnod yr Adfent a'r cymeriadau sy'n rhan o hanes y Nadolig

### Adnoddau

- Nifer o Galendrau Adfent gydag amrywiaeth o gymeriadau arnynt e.e. cymeriadau cartŵn neu *super heroes*.
- Y Calendr Adfent Go Iawn (*The Real Advent Calendar*)

### Braslun

1. Trafod y geiriau, 'Fy hoff gymeriad.' Pryd ydyn ni'n dweud hyn? Fel arfer pan rydyn ni'n siarad am lyfr neu ffilm neu raglen deledu. Gofynnwch am enwau rhai o hoff gymeriadau'r gynulleidfa, a gofynnwch iddyn nhw esbonio pam eu bod yn hoff ohonynt. Pa ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio? Doniol? Cryf? Cyfeillgar? Sut mae ein hoff gymeriadau yn gwneud i ni deimlo?
2. Edrychwch ar rai o'r calendrau sydd ddim yn dangos lluniau o'r Adfent a gofynnwch pam fod y gwahanol gymeriadau i'w gweld ar y calendrau. Yn sicr bydd nifer o atebion da: am fod plant yn hoffi'r cymeriad; am fod y cymeriad (e.e. dyn eira neu garw) yn gysylltiedig â'r amser o'r flwyddyn; person enwog - efallai cymeriad mae'r plant yn edmygu ayb.
3. Gofynnwch: Pwy fyddai'r cymeriad perffaith ar gyfer y Nadolig? Pa fath o bersonoliaeth fyddai ganddo ef/hi?
4. Dangoswch y *Real Advent Calendar* a gofynnwch i'r gynulleidfa os ydyn nhw'n gallu enwi'r holl gymeriadau: angylion, bugeiliaid, gwŷr doeth, Joseff, Mair ac Iesu.
5. Gofynnwch: Sut byddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?
  - **Yr Angylion** yn llenwi'r nos gyda goleuni a chanu. Roedd eu moliant yn dangos fod geni Iesu yn rhywbeth arbennig iawn. Efallai mai'r gair gorau i ddisgrifio'r angylion fyddai...llawen?
  - **Y Bugeiliaid:** roedden nhw'n ofnus iawn pan welon nhw'r angylion ond fe aethon nhw ar frys i Fethlehem pan glywon nhw fod Iesu wedi ei eni. Efallai mai'r gair gorau i ddisgrifio'r bugeiliaid fyddai ...cyffrous?
  - **Y gwŷr doeth:** yn dilyn y seren gan gredu ei bod hi am eu harwain nhw at frenin newydd. Efallai mai'r gair gorau i ddisgrifio'r gwŷr doeth fyddai ...gobeithiol?
  - **Mair a Joseff:** Roedden nhw wedi cytuno i ofalu am Fab Duw. Efallai mai'r gair gorau i ddisgrifio Mair a Joseff fyddai...ffyddlon?
6. **Gofynnwch:** sawl un o'r geiriau yna sy'n disgrifio ein cymeriadau ni yn ystod cyfnod yr Adfent? Am be ydyn ni'n gobeithio? Ydyn ni'n gyffrous - pam? Mae hi'n gwbl naturiol i fod yn gyffrous am ein hanrhegion, ac edrych ymlaen am y cinio Nadolig a chael cwmni teulu a ffrindiau. Ond tybed os oes yna rywbeth arall sy'n sbesial am gyfnod yr Adfent a'r Nadolig?
7. Mae ffyddlon yn air anodd. Tybed ydyn ni'n ffyddlon? Roedd gan Mair a Joseff ffydd yn Nuw ac roedden nhw'n ei drystio ef ac yn ffyddlon iddo. Gofynnwch: Oes gennym ni ffydd adeg y Nadolig? Ydyn ni'n bobl ffyddlon ?
8. Darllenwch y darlenniadau isod i weld ffydd Joseff a Mair ar waith yn ystod y Nadolig cyntaf:  
Luc 1: 26-38  
Mathew 1: 18-24

Roedd Mair a Joseff yn credu fod Duw am ddod i'r byd a byw gyda ni. Daeth i ddangos ei gariad mawr i holl bobl y byd. Drwy gydol ei fywyd byddai Iesu yn dangos bod Duw yn ein caru ni fel mai Tad da yn caru ei blant. Dysgodd Iesu nad yw marwolaeth yn fwy na chariad Duw ac nad oes dim byd yn gallu gwahanu pobl Dduw oddi wrtho. Dysgodd Iesu fod Duw eisiau i ni garu ein gilydd yn yr un ffordd ag y gwnaeth ef ein caru ni.

9. Mae un cymeriad arall pwysig ar y calendr: Iesu. Iesu yw'r un rydyn ni'n paratoi ar ei gyfer yn ystod cyfnod yr Adfent. Y ffordd orau i'w ddisgrifio ef ydy drwy ddweud, 'cariad'. Carodd Duw'r byd cymaint nes iddo anfon ei unig fab i'r byd. Ni fyddai'r plentyn bach yna wedi gallu byw a thyfu heb gariad Mair a Joseff.
10. Pan dyn ni'n edrych ar y *Real Adfent Calendar* rydyn ni'n gallu cofio ein bod ni hefyd yn rhan o'r stori. Rydyn ni'n llawen, yn gyffrous ac yn obeithiol. Gallwn gael ffydd fod Duw gyda ni. Ac rydyn ni'n gallu cofio mai cariad Duw sydd yng nghanol stori'r Nadolig.

### **Cyfle i feddwl**

Beth am ystyried sut oedd bob un o gymeriadau Stori'r Nadolig yn teimlo yn ystod y Nadolig cyntaf hwnnw? Cymaint o ryddhad i'r gwŷr doeth oedd gweld y baban Iesu ar ôl teithio mor bell. Mor llawen oedd y bugeiliaid ar ôl gweld y baban, roedd ei weld yn profi bod ganddyn nhw reswm da dros fod yn gyffrous. Fe gawson nhw gyfle i weld Iesu, yr Emaniwel - sef Duw gyda ni.

Beth am dreulio ychydig o amser yn diolch am y bobl hynny sy'n gwneud ein Nadolig ni yn sbesial? Ein rhieni a'r bobl sy'n gofalu amdanon ni; ffrindiau sy'n prynu cardiau ac anrhegion i ni; doctoriaid a nyrsys sy'n gweithio dros gyfnod y Nadolig, a phawb arall sy'n gweithio yn ystod y gwyliau fel ein bod ni'n gallu bod yn ddiogel a hapus. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar i aelodau'n capeli ac eglwysi, ac aelodau'r gymuned leol, sy'n paratoi ar gyfer dathlu'r Nadolig ac sy'n rhannu'r cyfnod hapus hwn gyda ni.

Rhaid i ni gofio hefyd am y rhai sy'n gweld cyfnod yr Adfent yn gyfnod unig neu drist. Efallai eu bod wedi colli anwyliaid neu'n unig yn eu tai. Mae rhai pobl yn dianc o ryfeloedd ac wedi gorfod gadael eu cartrefi a'u gwledydd. Mae rhai yn gorfod byw heb gariad pobl eraill. Mae rhai pobl yn sâl ac yn dioddef. Beth am i ni wneud addewid i geisio rhannu'r newyddion da am gariad Iesu, a'r gobaith am heddwch sydd i'w gael o gredu ynddo?

Beth am i ni feddwl am ein hunain hefyd? Rydyn ni hefyd yn gymeriadau pwysig yn stori fawr Duw. Stori sy'n para drwy'r oesoedd a thu hwnt i'r bedd. Rydyn ni mor werthfawr yng ngolwg Duw fel ei fod wedi gyrru ei unig fab i'r byd i fyw gyda ni. Cofiwch fod Duw yn ein caru ni, a'n bod ni'n werthfawr yn ei olwg.

### **Gweddi**

Ein Tad, llenwa ni gyda llawenydd yr angylion a chyffro'r bugeiliaid yn ystod cyfnod yr Adfent.

Fel y gwŷr doeth, gad i ni fod yn obeithiol, ac fel Mair a Joseff helpa ni i gadw'n llygaid yn ffyddlon arnat ti. Helpa ni i rannu'r cariad wnaeth Iesu ei rannu gyda ni, yn ystod cyfnod y Nadolig.

Rydyn ni'n diolch i ti ac yn dy foliannu am yr amser arbennig hwn, **Amen**